Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 25 Ionawr 2012**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
enterprise.committee@wales.gov.uk

## Agenda

**1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**2. Y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ewropeaidd (9:00 - 9:30)**
(Tudalennau 1 - 14)
Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE - y Gwasanaeth Ymchwil

**3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau a ganlyn:**

**4. Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) - trafod y dull o ystyried y Bil drafft** (Tudalennau 15 - 23)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

## Horizon 2020 – Fframwaith Ymchwil ac Arloesi yr UE

**Papur Briffio :**

---

**Dyddiad y papur:** **18 Ionawr 2012**

DRAFT

**Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Menter a Busnes.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gregg Jones (ffôn. 0032 2 226 6692) neu Anne Thomas (est 8966)**
**E-bost: Gregg.Jones@wales.gov.uk neu Anne.Thomas@wales.gov.uk**

Research Service

## Cynnwys

**1. Cynigion Horizon 2020 ........ 3**
1.1 Cyflwyniad ........ 3
1.2 Proses gwneud penderfyniadau'r DU ar gyfer cytuno ar y cynigion ........ 3
1.3 Prif elfennau Horizon 2020 ........ 3
1.4. Barn Llywodraeth y DU ........ 5
1.5 Ymchwiliad Senedd yr Alban ........ 6
**2. Perthnasedd i Gymru ........ 6**
2.1. Tanberfformio mewn rhaglenni ariannu ymchwil presennol yr UE (a chenedlaethol) ... 6
2.2. Synergedd gyda Chronfeydd Strwythurol yr UE ........ 7
**3. Cyfle posibl ar gyfer ymchwiliad gan y Pwyllgor yn y dyfodol? ........ 7**

DRAFT

## 1. Cynigion Horizon 2020[1].

### *1.1 Cyflwyniad*

Ar 30 Tachwedd 2011 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion deddfwriaethol a amlinellodd y fframwaith cyfreithiol ar gyfer Horizon 2020, rhaglen ymchwil ac arloesi yr UE ar gyfer 2014-2020. Bydd y cynigion hyn yn cael eu trafod ym Mrwsel yn ystod y 12-18 mis nesaf, a byddant yn pennu'r fframwaith y bydd busnesau (yn benodol) a phrifysgolion Cymru yn ei dilyn er mwyn gwneud cais am arian ymchwil yr UE yn ystod y cyfnod dan sylw.

Bydd Horizon 2020 yn olynu'r rhaglen ymchwil bresennol 'Framework Seven' (FP7), ac mae hefyd yn cynnwys elfennau o'r rhaglen ymchwil bresennol ar gystadleurwydd ac arloesi (sy'n darparu ystod o gymorth wedi'i anelu at fusnesau bach a chanolig, yn cynnwys cyllid drwy fenthyciadau). Mae hyn yn golygu mai Horizon 2020 fydd prif ffynhonnell arian yr UE ar gyfer gweithgareddau ymchwil a datblygu i brifysgolion, canolfannau ymchwil a busnesau yn yr UE. Fel prif offeryn ariannol menter flaenllaw strategaeth Ewrop 2020, sef **Undeb Arloesi**, mae hyn yn golygu mai dyma brif ffynhonnell arian yr UE (y tu allan i'r cronfeydd strwythurol) i gefnogi gweithgareddau arloesi yn economi'r UE.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig cyllideb o tua **€80 biliwn** ar gyfer y rhaglen Horizon 2020, sy'n gynnydd o fwy na 40% ar y cyllid presennol a roddir i FP7 (oddeutu €52 biliwn).

### *1.2 Proses gwneud penderfyniadau'r DU ar gyfer cytuno ar y cynigion*

Caiff cynigion Horizon 2020 eu mabwysiadu drwy'r 'broses ddeddfwriaethol gyffredin' (cydbenderfynu), sy'n eu gwneud yn ofynnol i Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion (h.y. llywodraethau'r Aelod-wladwriaethau) gytuno ar y testun terfynol, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yn gweithredu fel brocer.

Y Pwyllgor a fydd yn arwain y trafodaethau hyn yn Senedd Ewrop fydd y **Pwyllgor Diwydiant, Ymchwil ac Ynni**, dan Gadeiryddiaeth y Democrat Cristnogol o'r Almaen Herbert Reul ASE. Nid oes ASE o Gymru ar y Pwyllgor hwn. Fodd bynnag mae pedwar ASE o'r DU, tro ohonynt yn aelod ac un dirprwy[2].

O fewn Cyngor y Gweinidogion y **Cyngor Cystadleurwydd** a fydd yn arwain ar hyn. Mae dau gyfarfod o'r Cyngor hwn wedi'i drefnu (21 Chwefror a 31 Mai) yn ystod **Llywyddiaeth Denmarc o'r DU** a disgwylir iddo drafod cynigion Horizon 2020 yn y ddau gyfarfod. Bydd Gweinidogion (a swyddogion) y DU yn cynrychioli Cymru ar y Cyngor Cystadleurwydd ac yn ei weithgorau.

### *1.3 Prif elfennau Horizon 2020*

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig y dylai Horizon 2020 fod yn seiliedig ar dri amcan strategol:

[1] Gweler **gwefan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar Ymchwil**.
[2] Gellir monitro cynnydd y goflen drwy'r broses ddeddfwriaethol ar **wefan Arsyllfa Deddfwriaethol** Senedd Ewrop

- **Gwyddoniaeth ragorol** – sy'n anelu at atgyfnerthu ac ehangu rhagoriaeth gwyddoniaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r rhan hon yn cynnwys pedwar amcan penodol:
  - Y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd (ERC) – i ariannu ymchwil rhagorol ar sail cystadleuaeth ar draws Ewrop gyfan
  - Technolegau'r Dyfodol a Thechnolegau Newydd (FET) – i hyrwyddo datblygu technolegau newydd radical yn seiliedig ar syniadau arbrofol risg uchel
  - Marie Curie Actions – i gefnogi hyfforddiant i ymchwilwyr, a symudedd ar draws ffiniau ac ar draws sectorau
  - Seilwaith ymchwil – i ddatblygu seilwaith ymchwil Ewropeaidd
- **Arweinyddiaeth Ddiwydiannol** – sy'n anelu at gynnal a datblygu arweinyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd o ran galluogi technolegau ac ymchwil ac arloesi yn ymwneud â'r gofod. Y bwriad yw cynnwys cymorth ar gyfer:
  - Prif Dechnolegau Galluogi (KETs) – Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), Nanotechnolegau, Deunyddiau Uwch, Biotechnoleg, Gweithgynhyrchu a Phrosesu Uwch, a'r Gofod
  - Mynediad i gyllid risg – offeryn ariannol ar gyfer dyledion ac offeryn ariannol ar gyfer ecwiti er mwyn gwella proffiliau cyllid a risg gweithgareddau ymchwil ac arloesi
  - Arloesi mewn Busnesau Bach a Chanolig – prif ffrydio cymorth i fusnesau bach a chanolig a hyrwyddo arloesi sy'n canolbwyntio ar y farchnad

  Mae'r amcan strategol Arweinyddiaeth Ddiwydiannol yn dod ag elfennau ariannu 'arloesi' ynghyd yn Horizon 2020 a drosglwyddwyd o'r rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesi bresennol.
- **Heriau cymdeithasol** – sy'n anelu at ddefnyddio ymchwil ac arloesed i fynd i'r afael â phryderon cymdeithasol mawr ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu canolbwyntio ar ariannu chwe her fawr, i gefnogi gwaith ar draws meysydd, disgyblaethau a thechnolegau, ynghyd â'r gadwyn arloesi gyfan:
  - Iechyd, newid demograffeg a lles
  - Diogelwch bwyd, amaethyddiaeth gynaliadwy, ymchwil morol a'r bioeconomi
  - Ynni diogel, glân ac effeithlon
  - Trafnidiaeth ddoeth, werdd ac integredig
  - Camau'n ymwneud â'r hinsawdd, effeithlonrwydd ynni a deunyddiau crai
  - Cymdeithasau cynhwysol, arloesol a diogel

  I raddau helaeth mae'r 'Heriau Cymdeithasol' yn disodli'r blaenoriaethau 'ymchwil thematig' sy'n ffocws prosiectau ymchwil cydweithredol presennol FP7. O ran Horizon 2020 mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymchwil



DRAFT

'amlddisgyblaeth' yn yr amcan strategol hwn nag sy'n bodoli ar hyn o bryd yn achos FP7.

Yn ogystal â'r tri amcan strategol hyn bydd Horizon 2020 hefyd yn darparu cymorth ariannol i:

- **Sefydliad Arloesi a Thechnoleg Ewrop (EIT)**, sy'n cynnwys y gwaith o integreiddio ymchwil, addysg ac arloesed drwy **Gymunedau Gwybodaeth ac Arloesi (KICs)** yr EIT.
- **Y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd**: i ddarparu tystiolaeth wyddonol a chymorth technegol ar gyfer pob un o dri amcan strategol Horizon 2020.

Mae nifer o elfennau FP7 wedi cael eu symud o Horizon 2020 i offerynnau polisi/ariannu eraill yr UE. Er enghraifft, caiff y camau i gefnogi ehangu cyfranogiad mewn gwaith ymchwil yr UE drwy fentrau Rhanbarthau Gwybodaeth a Photensial Ymchwil FP7, eu prif ffrydio i Gronfeydd Strwythurol yr UE, ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi cynnwys mesurau yn *Erasmus for All* (cymorth symudedd yr UE ym meysydd addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon) i annog cynghreiriau gwybodaeth rhwng y byd academaidd a byd busnes.

Nod craidd Horizon 2020 fydd cefnogi rhagoriaeth ym maes ymchwil ac arloesi yn yr UE, a bydd modd cael cyllid drwy geisiadau cystadleuol wedi'u rheoli'n ganolog gan yr UE (neu drwy ei asiantaethau). Mae hyn yn golygu na chaiff arian ei ddyrannu ymlaen llaw i Gymru nac unrhyw Aelod-wladwriaeth. Bydd angen i sefydliadau o Gymru sy'n awyddus i gael arian drwy Horizon 2020 fod yn fuddugol yn y rowndiau cystadleuol hyn, y trefnir y mwyafrif llethol ohonynt drwy brosiectau cydweithredol gyda phartneriaid o rannau eraill o'r UE (a'r tu allan i'r UE o bosibl).

Yn olaf, noda'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd amcan i symleiddio'r broses yn Horizon 2020, drwy gyflwyno un gyfres o reolau i ymgeiswyr, modelau syml ar gyfer ad-dalu costau, un pwynt mynediad i gyfranogwyr, a chwtogi 100o ddiwrnodau oddi ar yr amser dyrannu grant.

## *1.4. Barn Llywodraeth y DU*

Mae Llywodraeth y DU wedi paratoi Memorandwm Esboniadol (EM)[3], sy'n cefnogi cynigion drafft y Comisiwn Ewropeaidd yn gyffredinol.

> …The Government agrees that Horizon 2020 should play a central role in implementing the Europe 2020 strategy, notably the Innovation Union flagship initiative. It has the potential to help promote growth, quality of life and promoting sound, evidence-based policies at national and EU level. Overall, the Government considers that the Commission proposals are broadly in line with the UK's priorities set out in a position paper published in May 2011. (Paragraff 34 o'r EM)

Er ei bod yn cefnogi dyrannu cyfran fwy o gyllideb gyfan yr UE i ymchwil ac arloesi, nid yw Llywodraeth y DU yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn gwariant ar gyfer Horizon 2020 gan ddisgrifio hyn fel rhywbeth afrealistig nad yw'n cyd-fynd â'r angen i ffrwyno mwy ar y gyllideb (paragraff 39 o'r EM).

[3] Cyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2011 – gweler **gwefan Swyddfa Cabinet y DU**

Yn ogystal, yn gyffredinol mae Llywodraeth y DU hefyd yn cefnogi'r strwythur arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r tri amcan strategol a'r cynigion ar gyfer pob un o'r amcanion hyn, ond awgryma rai newidiadau e.e. o fewn yr amcan Arweinyddiaeth Ddiwydiannol, ffocws cliriach ar gaffael cyn-fasnachol fel dull o ysgogi arloesi ymysg busnesau bach a chanolig.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn croesawu'n gyffredinol y cynigion am fwy o synergedd rhwng Horizon 2020 a rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE, ac mae'n cefnogi'r amcanion i wneud crofneydd Horizon 2020 yn haws i fusnesau bach a chanolig, a'r ymrwymiad i symleiddio'r rheolau cyfranogi.

### *1.5 Ymchwiliad Senedd yr Alban*

Mae Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol Senedd yr Alban yn cynnal **ymchwiliad** i'r cynigion ar gyfer Horizon 2020. Gwnaeth alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar 13 Ionawr a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfraniadau yw 24 Chwefror 2012.

Nid oes manylion ar gael ar hyn o bryd am gylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn.

## 2. Perthnasedd i Gymru

### *2.1. Tanberfformio mewn rhaglenni ariannu ymchwil presennol yr UE (a chenedlaethol)*

Yn ystod y trydydd Cynulliad, cynhaliodd Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru **ymchwiliad i gyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr UE**. Canfu'r ymchwiliad hwn fod Cymru'n tanberfformio mewn rhaglenni ymchwil y DU yn arbennig o gymharu â rhannau eraill o'r DU a galwodd am 'ddull mwy strategol' i helpu i fynd i'r afael â hyn:

> Canfu'r adolygiad hwn fod digon o gwmpas heb os i Gymru wella ei sefyllfa, yn enwedig o ran cael gafael ar gyllid gan y Rhaglen Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygu (FP7) er mwyn gwella'r capasiti ymchwilio yng Nghymru. Bydd cael dull mwy strategol i annog cyfranogiad yn yr holl raglenni UE hyn yn helpu i gyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru a'r nod cyfrannol Ewropeaidd, sydd wedi'i bennu yn strategaeth Ewrop 2020, i gynyddu'r gwariant ar ymchwil a datblygu yn sylweddol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

Nododd y Pwyllgor yr angen am 'ragor o gyfatebolrwydd' rhwng gwahanol raglenni ariannu'r DU, yn cynnwys synergedd gyda rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru.

Yn **ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad** derbyniwyd pob un (rhai ohonynt 'mewn egwyddor') o argymhellion y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor Menter a Dysgu (y Trydydd Cynulliad) faterion tebyg hefyd yn ystod ei **Ymchwiliad i sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM)** (Tachwedd 2010-Ionawr 2011). Un o'i argymhellion oedd:

> y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod Cymru'n manteisio ar gyfleoedd cyllido annomestig fel y gall sefydliadau addysg uwch weithio gydag awdurdodau lleol a diwydiannau uwch-dechnoleg yn eu hardaloedd ar geisiadau ar y cyd i ddatblygu prosiectau arloesol ar gyfer annog pobl i ddewis meysydd yn ymwneud â STEM ym maes addysg a chyflogaeth.



DRAFT

Derbyniwyd yr argymhelliad gan [Lywodraeth Cymru](), a ddywedodd fod yr argymhelliad hwn hefyd yn ategu canfyddiadau adroddiad ei Phanel Adolygu Ymchwil a Datblygu ei hun. Yn adroddiad Panel Adolygu Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru gwnaethpwyd yr argymhelliad canlynol:

> the Assembly Government should provide advice and assistance to clients on external R&D programmes, work proactively to develop high quality bids, facilitate industry/academia links and proactively engage in the development of future frameworks e.g. EU Framework Programme 8.

### *2.2. Synergedd gyda Chronfeydd Strwythurol yr UE*

Yn ystod yr ymchwiliad parhaus i gynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi cymryd tystiolaeth ar flaenoriaethu cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi, a phynciau cysylltiedig (carbon isel/effeithlonrwydd ynni a chystadleurwydd busnesau bach a chanolig).

Mae hyn yn cynnwys y cysyniad **'llwybrau i ragoriaeth'**, a sut y gellir defnyddio cronfeydd strwythurol yr UE i ddatblygu gallu o ran ymchwil er mwyn galluogi rhanbarthau sy'n tanberfformio i allu cystadlu'n well am gyllid ymchwil prif ffrwd (boed hynny gan raglenni ymchwil cenedlaethol neu raglenni ymchwil yr UE, neu o'r sector preifat).

Mae'r pwynt hwn yn berthnasol iawn o gofio mai gogwydd y cynigion gan y Comisiwn Ewropeaidd yw sicrhau bod Horizon 2020 yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ragoriaeth, a defnyddio rhaglenni ariannu eraill yr UE, yn benodol Gronfeydd Strwythurol yr UE, i gefnogi'r amcan polisi o ehangu cyfranogiad yn y maes ymchwil. Fel y nodir uchod, mae hyn yn newid o FP7 lle mae rhywfaint o gymorth ar gyfer ehangu mynediad a datblygu potensial rhanbarthol ar gael.

## 3. Cyfle posibl ar gyfer ymchwiliad gan y Pwyllgor yn y dyfodol?

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried gwerth cynnal ymchwiliad byr ag iddo ffocws (2-3 o sesiynau tystiolaeth) i Horizon 2020 - fframwaith ymchwil ac arloesi yr UE, y cyhoeddwyd cynigion ar ei gyfer ddiwedd fis Tachwedd 2011. Er enghraifft gallai ymchwiliad edrych ar faterion tebyg i'r canlynol:

- Yr ymateb i'r cynigion gan randdeiliaid o Gymru, gan amlygu'r elfennau cadarnhaol (yn cynnwys cyfleoedd) ac unrhyw elfennau negyddol i Gymru
- Ystyried sut mae datblygiadau polisi perthnasol yng Nghymru sydd wedi eu hanelu at wella ymchwil a gwyddoniaeth, fel y Strategaeth ar Wyddoniaeth a'r Strategaeth Arloesi Ranbarthol (a pholisïau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru) yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad Cymru yn rhaglenni ymchwil y DU
- Ystyried y potensial ar gyfer synergedd gyda Chronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020 wedi eu hanelu at gefnogi'r gwaith o wella perfformiad sefydliadau AU a busnesau yng Nghymru yn 2014-2020 o gymharu â rhaglenni ymchwil presennol a blaenorol yr UE

Gallai hwn fod yn gam cyntaf proses a allai arwain y Pwyllgor i ystyried cynnal ymchwiliad dilynol yn 2013 ar y paratoadau sydd ar y gweill yng Nghymru i ennyn cefnogaeth i

DRAFT

gyfranogi'n effeithiol yn Horizon 2020, a chysylltu hyn â'r paratoadau ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol (a rhaglenni eraill fel y bont yn berthnasol – e.e. cyllid ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig a rhaglenni morol/pysgodfeydd).

DRAFT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

## Diweddariad ar Faterion Ewropeaidd ar gyfer y cyfarfod ar 25 Ionawr

**Papur briffio :**

---

| **Dyddiad y papur:** | **18 Ionawr 2012** |
|---|---|

Research Service

**Cynhyrchwyd y papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w ddefnyddio gan y Pwyllgor Menter a Busnes.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gregg Jones (ffôn 0032 2 226 6692) E-bost: Gregg.Jones@wales.gov.uk**

**Cynnwys**


**1. Cyflwyniad ........ 3**
**2. Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2012 ........ 3**
2.1. Sicrhau adfywio yn Ewrop ........ 3
2.2. Meysydd posibl o ddiddordeb i'r Pwyllgor Menter a Busnes ........ 4
**3. Materion strategol ehangach o bwys i Gymru ........ 5**
3.1. Argyfwng Ardal yr Ewro ........ 5
3.2. Ewrop 2020 ........ 5

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Menter a Busnes ar ddatblygiadau diweddar ym Mrwsel, gyda'r nod o lywio'r broses o gynllunio gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2012.

Mae'n canolbwyntio'n benodol ar ***raglen waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2012***, a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2011, ac yn amlygu materion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Cyfeiria hefyd at ddatblygiadau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol i waith y Pwyllgor.

Mae papur briffio cefndir ar wahân wedi'i baratoi ar y cynigion i greu ***Horizon 2020 – fframwaith ymchwil ac arloesi yr UE*** ar gyfer y cyfnod 2014-2020, a gyhoeddwyd ddiwedd Tachwedd 2011.

## 2. Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2012

### *2.1. Sicrhau adfywio yn Ewrop*

Prif slogan rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2012 yw 'delivering European renewal' a noda:

> …the EU's overriding priority must be to foster a sustainable and job-rich economy (tudalen 1)

Mae hyn yn adlewyrchu cyd-destun gwleidyddol ac economaidd ehangach yr ansefydlogrwydd ariannol ac economaidd, yn cynnwys yr ansicrwydd parhaus ynghylch dyfodol Ardal yr Ewro.

Mae'r rhaglen waith yn rhoi pwyslais ar bedwar amcan trosfwaol, ac yn nodi ystod o fentrau – llawer ohonynt yn themâu/meysydd gwaith parhaus:

- **Creu Ewrop sefydlog a chyfrifol:** yn cynnwys diwygio'r sector ariannol a sicrhau refeniw cyhoeddus cynaliadwy
- **Creu Undeb o dwf cynaliadwy ac undod:** adfywio'r Farchnad Sengl (cynigion a gyhoeddwyd fis Mawrth 2011), grymuso pobl mewn cymdeithasau cynhwysol (trefn hyblyg ond sicr neu 'flexicurity'), a braenaru'r tir ar gyfer dyfodol cynaliadwy (yn cynnwys 'twf glas' gweler adran 2.2 isod, a'r gyfarwyddeb effeithlonrwydd ynni – cynigion a gyhoeddwyd fis Mehefin 2010)
- **Rhoi llais effeithiol i'r UE yn y byd ehangach:** yn cynnwys polisi ehangu'r UE, polisi cymdogaeth (yng nghyd-destun ansefydlogrwydd gwleidyddol yn ne ardal Môr y Canoldir yn arbennig), a pholisi byd eang (masnach gyda Tsienia, Japan ac ati)
- **Rheoleiddio doeth a gweithredu effeithiol:** gwario'n ddoethach (gwneud mwy gyda llai o adnoddau) a rheoleiddio doethach (lleihau'r baich gweinyddol ar fusnesau)

Fel sy'n arferol mae'r rhaglen waith yn cynnwys cyfres o atodiadau technegol sy'n rhestru 129 o fentrau arfaethedig ar gyfer 2012 (yn cynnwys ymrwymiadau i gyflawni nifer o'r rhain

yn 2012), 56 o fentrau arfaethedig ar gyfer 2013, 28 o fentrau symleiddio a lleihau baich gweinyddol, ac yn olaf 17 o fentrau y bwriedir eu tynnu'n ôl.

### *2.2. Meysydd posibl o ddiddordeb i'r Pwyllgor Menter a Busnes*

Mae'r mentrau a fyddai'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a restrir fel cynigion penodol yn atodiadau rhaglen waith 2012 y Comisiwn Ewropeaidd yn gymharol brin. Ymysg y rhai a allai fod o ddiddordeb mae:

- **Adolygiad o'r canllawiau ar gymorth rhanbarthol cenedlaethol:** rhagwelir y bydd y cynigion yn cael eu mabwysiadu fis Medi 2012
- **Adolygu canllawiau cymorth gwladwriaethol ar gyfer rhwydweithiau band eang:** rhagwelir y bydd y cynigion yn cael eu mabwysiadu fis Gorffennaf 2012
- **Pecyn cyflogaeth (cynigion nad ydynt gynigion deddfwriaethol)** sy'n cynnwys Gohebiaeth yn dwyn y teitl 'Towards a job rich economy' a Gohebiaeth ar y pecyn Trefn Hyblyg ond Sicr (Flexicurity). Rhagwelir y bydd y cynigion gael eu mabwysiadu fis Mehefin 2012.
- **Twf Glas: twf cynaliadwy ar gyfer cefnforoedd, moroedd ac arfordiroedd** (heb fod yn ddeddfwriaethol), ond mae hyn o bosibl yn fwy perthnasol i gylch gwaith Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn arbennig o gofio'r gwaith y mae'n ei wneud ar ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Yn ogystal â'r rhain cyhoeddwyd cynigion ar gyfer nifer o goflenni yn ddiweddar (soniwyd eisoes am *Horizon 2020* felly ni chaiff ei gynnwys yma), a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr ond mae'n cynnwys meysydd a allai fod o ddiddordeb penodol:

- **Cyfleuster cysylltu Ewrop i wella rhwydweithiau trafnidiaeth, ynni a digidol yn Ewrop**, cynigion deddfwriaethol a gyhoeddwyd fis Hydref 2011. Gallai'r mater hwn gael ei gwmpasu fel rhan o'r ymchwiliad i Gronfeydd Strwythurol yr UE, ond efallai yr hoffai'r Pwyllgor edrych ar y mater hwn ar wahân hefyd.
- **Pecyn diwygiedig o reolau cymorth gwladwriaethol ar iawndal cyhoeddus i wasanaethau o ddiddordeb economaidd cyffredinol (SGEIs)**, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2011
- **Polisi morol: strategaeth newydd ar gyfer twf a swyddi yn ardal cefnfor Iwerydd**, strategaeth nad yw'n strategaeth ddeddfwriaethol a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2011. Mae hyn yn cysylltu â'r ohebiaeth 'Twf Glas' y cyfeirir ati uchod, ac efallai ei fod yn fwy perthnasol i gylch gwaith Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- **Cynllun gweithredu ar arloesi economaidd**, a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2011

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor edrych yn ehangach ar rai o'r prif faterion/sbardunau strategol ar agenda'r UE o safbwynt buddiannau Cymru, ac yn adran 3 isod trafodir dau o'r rheini a allai fod yn sail i ymchwiliadau yn ystod 2012.

## 3. Materion strategol ehangach o bwys i Gymru

### *3.1. Argyfwng Ardal yr Ewro*

Mae argyfwng Ardal yr Ewro wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau yn y DU a Chymru (ac yn fyd eang), ynghyd â'r argyfwng ariannol ac economaidd sydd wedi meddiannu agenda'r UE dros y 2-3 blynedd diwethaf. Mynd i'r afael â'r argyfwng yw'r prif rym sy'n llywio rhaglen waith 2012 fel y nodwyd eisoes.

Mae strategaeth ***Ewrop 2020*** yn darparu'r polisi economaidd trosfwaol er mwyn i Ewrop adfer o'r argyfwng, ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau twf doeth, cynaliadwy a chynhwysol.

Yn ogystal, mae'r UE wedi cytuno (ac mae wrthi'n cytuno) ar ystod o fesurau eraill wedi eu hanelu at geisio sefydlogi economi'r UE, a mynd i'r afael ag achosion canfyddedig yr argyfwng ariannol ac economaidd.

Mae hyn yn cynnwys llu o fesurau[1] wedi eu hanelu at:

- **gryfhau'r ffordd y caiff y sector ariannol a bancio ei rheoleiddio** (yn cynnwys fframwaith goruchwyliaeth ariannol newydd ar lefel yr UE, ac amrywiol gynigion deddfwriaethol sy'n cwmpasu cynhyrchion/gwasanaethau ariannol)
- **cryfhau prosesau llywodraethu economaidd yr UE** (yn arbennig y cyutndeb 'Six Pact' y cytunwyd arno yn yr hydref a'r cytundeb 'Euro Plus' y cytunwyd arno fis Mawrth 2011)
- **rhoi mecanweithiau ariannol ar waith** (y Cyfleuster Sefydlogrwydd Ariannol Ewropeaidd yn wreiddiol a fydd yn newid i fod yn Fecanwaith Sefydlogrwydd Ewropeaidd o 2013 ymlaen) i gefnogi gwledydd sy'n wynebu anawsterau penodol (e.e. Iwerddon, Portiwgal a Gwlad Groeg hyd yma).

Lansiodd Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad newydd** i argyfwng Ardal yr Ewro fis Rhagfyr 2011, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yw canol Ionawr.

Mae Tŷ'r Arglwyddi wedi lansio **ymchwiliad newydd** i argyfwng Ardal yr Ewro, yn cynnwys y cynigion am gytuniad ar 'gompact ariannol' a drafodwyd yn y Cyngor Ewropeaidd fis Rhagfyr, a'r broses y cytunodd 26 o blith y 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE arni er mwyn cytuno ar gytuniad rhyngwladol (erbyn Mawrth 2012) ar gryfhau disgyblaeth gyllidebol a chydgysylltu polisi economaidd o fewn yr UE.

**Mater i'r Pwyllgor ei ystyried:** Gallai fod yn fuddiol i'r Pwyllgor Menter a Busnes ystyried cynnal ymchwiliad yn edrych ar yr argyfwng yn Ardal yr Ewro a'r effaith bosibl ar economi Cymru.

### *3.2. Ewrop 2020*

Fel y nodir uchod, strategaeth *Ewrop 2020* yw polisi economaidd trosfwaol yr UE sydd wedi'i anelu at roi economi'r UE ar y llwybr cywir tuag at adferiad. Prif nod y strategaeth yw sicrhau twf doeth, cynaliadwy a chynhwysol, ac fe'i cyflawnir drwy gyfuniad o gamau ar lefel yr UE (yn cynnwys cyllideb yr UE, camau i gryfhau'r Farchnad Sengl, a chyfres o fentrau

[1] Gweler **gwefan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ac Faterion Economaidd ac Ariannol** i gael rhagor o wybodaeth.

thematig blaenllaw i roi cyfeiriad strategol i gamau a gymerir ar lawr gwlad) a thrwy gamau dan arweiniad Aelod-wladwriaethau.

Yn sail i hyn mae cylch llywodraethu economaidd blynyddol – Semester yr UE – sy'n dechrau gyda chyhoeddi'r *Strategaeth Twf Blynyddol* gan y Comisiwn Ewropeaidd (sy'n cynnwys canllawiau i Aelod-wladwriaethau ynghylch eu polisïau cyflogaeth ac economaidd) ac mae'n arwain at fabwysiadu *Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol* ar lefel Aelod-wladwriaethau. Mae llywodraeth y DU yn arwain y gwaith o baratoi rhaglen ddiwygio genedlaethol y DU, drwy ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yn cynnwys Llywodraeth Cymru .

**Mater i'r Pwyllgor ei ystyried:** O gofio bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ceisio cryfhau'r cysylltiadau strategol rhwng rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol (a'r cronfeydd datblygu gwledig a physgodfeydd) a chylch llywodraethu Ewrop 2020 (yn cynnwys y Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol), gallai fod yn fuddiol i'r Pwyllgor Menter a Busnes ystyried cynnal ymchwiliad yn edrych ar sut y mae Llywodraeth Cymru (a rhanddeiliaid eraill o Gymru) yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, a sut y mae'n cymryd camau i weithredu strategaeth Ewrop 2020 ar lawr gwlad.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon